# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, R.Meirion Jones, Bryan Owen, P S Rogers. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Swyddog Adnoddau Dynol (DJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth, 2018.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD :-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei datgelu a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni ym Mharagraff 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 APWYNTIO STAFF**

**PENNAETH TRAWSNEWID CORFFORAETHOL**

Cafodd 3 o ymgeiswyr gyfweliad yn dilyn adborth o'r broses benodiadau.

Rhoddodd yr ymgeiswyr gyflwyniad, gan ateb cwestiynau ar y cyflwyniad ac yna gyfres o gwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor.

Yn dilyn y cyfweliadau, **PENDERFYNWYD penodi Mrs Carys A Edwards i'r swydd uchod ar gyflog ac ar ddyddiad i'w penderfynu.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**